# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Tîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

**SWYDD:** Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**GRADD Y SWYDD:** GR12

**YN ATEBOL I'R:** Swyddog Arweiniol Datblygu'r Gweithlu

**DIBEN Y SWYDD:**
Gweithio gyda rheolwyr a staff ar draws y maes gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion annibynnol a'r trydydd sector er mwyn sefydlu continwwm dysgu ar gyfer staff gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol, o sefydlu hyd at ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid yn fewnol ac yn allanol i sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn cyflawni'n ymatebol i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion a gofalwyr sy'n cael mynediad at ofal a chymorth. A chynnwys unigolion a gofalwyr wrth nodi, cynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Paratoi'r Dadansoddiad o Anghenion Dysgu Gofal Cymdeithasol Oedolion ac ymgynghori arno mewn cydweithrediad â rheolwyr a staff, i adeiladu cynnig dysgu a datblygu craidd ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion.
- Cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a'r cynllun gwaith blynyddol.
- Datblygu cynllun dysgu a datblygu i'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer y maes cyfrifoldeb gan sicrhau bod yr holl ymyriadau dysgu yn diwallu anghenion y gwasanaeth ac unrhyw ofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso cyfleoedd dysgu a datblygu o ansawdd uchel ac effaith uchel i unigolion a thimau ar draws y Gyfarwyddiaeth a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, gan ddefnyddio dull cyfunol.
- Cydweithio â Thîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ehangach i gynllunio, trefnu a gweinyddu'r holl weithgarwch datblygu, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu sefydlu a'u cofnodi ar y System Rheoli Dysgu a'u cyfathrebu drwy sianeli priodol.
- Yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru, monitro data ystadegol ynghylch archebion, presenoldeb, ac adborth ar weithgareddau hyfforddi, i lywio anghenion dysgu yn y dyfodol.
- Rheoli perthnasoedd asiantaethau a chyflenwyr allanol, gan sicrhau bod yr holl ddeunyddiau dysgu, adnoddau, cyflwyno sesiynau wedi'u

comisiynu o ansawdd uchel a gwerth am arian, wedi'u cyflwyno yn unol â'r contract y cytunwyd arno, yn diwallu'r anghenion a nodwyd, ac yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd.
- Datblygu a chynnal rhwydwaith o gydweithwyr mewnol ac allanol, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach, Darparwyr Cymwysterau Galwedigaethol, a phartneriaid hyfforddi ledled Cymru, er mwyn ceisio a rhannu arbenigedd a datblygu ymarfer gyda nhw.
- Cynorthwyo'r gwaith o ddysgu a datblygu staff gofal cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, gan ddarparu dysgu, mentora ac asesu yn ôl yr angen.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i reolwyr a chydweithwyr Gofal Cymdeithasol ar gyfleoedd dysgu a datblygu priodol
- Cyfrannu at brosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad a chymhwysedd staff ar draws y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol ehangach
- Cynnal gwybodaeth am faes ymarfer yn ogystal â'r technegau dysgu a datblygu diweddaraf.
- Cynrychioli'r awdurdod lleol mewn fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol lle bo angen

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb Person

## Swyddog Datblygu'r Gweithlu

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster gwaith cymdeithasol perthnasol, e.e. DipSW / BSc neu MA Gwaith Cymdeithasol neu Ddiploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol ar Lefel 4 e.e. City and Guilds Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion).<br>• Cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal cymdeithasol/rheolwr preswyl gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Cymhwyster Addysgwr Ymarfer e.e. Galluogi Ymarfer / D32/A1/ TAQA.<br>• Cymhwyster perthnasol mewn dysgu a datblygu e.e., EATS, Paratoi i addysgu yn y sector dysgu gydol oes / Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, TAR / Tystysgrif Addysg Ôl-orfodol Addysg a Hyfforddiant (*gellir ei ennill pan fyddwch yn y swydd)*.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg *(ar ôl cyflogaeth).* | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf tair blynedd o brofiad gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso mewn lleoliad gofal cymdeithasol statudol.<br>• Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol i gynnwys deddfwriaeth bresennol, rheoliadau, canllawiau a safonau ac ymarfer a'r ymchwil sy'n sail i hyn. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Profiad o hyrwyddo, datblygu, rhoi cyflwyniadau a/neu hyfforddiant i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. | Ydy | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Profiad o asesu / mentora gweithwyr gofal cymdeithasol / myfyrwyr gwaith cymdeithasol / gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â rhaglenni astudio cymhwyso ac ôl-gymhwyso.<br>• Dealltwriaeth o fframweithiau cymhwyso ac ôl-gymhwyso ar gyfer gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.<br>• Gwybodaeth am Fframwaith Cymhwyso Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.<br>• Profiad o gynrychioli sefydliad a chyflwyno gwybodaeth mewn lleoliad amlasiantaethol.<br>• Gwybodaeth am brosesau rheoli cyllideb a monitro cyllideb | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Yn rhagweithiol gyda hunangymhelliant, i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer eich hun. Rheoli eich llwyth gwaith eich hun, gan ymateb yn hyblyg ac yn adeiladol i flaenoriaethau a phwysau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.<br>• Gallu dewis yr arddull gyfathrebu, dull, a sianel fwyaf priodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn benodol ac yn cael ei deall gan y gynulleidfa darged.<br>• Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff ar faterion dysgu a datblygu.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau i fodloni gofynion gwasanaeth ac atebion arloesol.<br>• Gallu meddwl yn eang a chynllunio'n strategol; gan gynnwys gallu gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth a dynamig. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a gwneud penderfyniadau a dyfarniadau cadarn ac amserol.<br>• Yn gymwys wrth ddefnyddio TGCh i gynnwys cymwysiadau Microsoft, a phlatfformau ar-lein fel Teams a Zoom, a'r gallu i hwyluso dysgu o bell.<br>• Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Gallu gyrru / teithio ar draws y fwrdeistref sirol neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |